Bwyd Da a Symud

# Bwyd Da a Symud: Cynllun Gweithredu i Gaerdydd a Bro Morgannwg (2024-2026)

**Llunio'r lleoedd** yr ydym yn **byw**, yn **gweithio** ac yn **chwarae** ynddynt.

# Cyflwyniad

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn disgrifio lle y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'n seiliedig ar y Fframwaith Bwyd Da a Symud, a'i bedair thema allweddol: Amgylchedd Iach, Lleoliadau Iach, Pobl Iach ac Arweinyddiaeth a Galluogi Newid.

Rydym yn gwybod bod hon yn agenda fawr, ac mae llawer o gynlluniau a phrosiectau gwerthfawr eraill sydd hefyd yn cyfrannu at ein gweledigaeth: **'Gyda'n gilydd, byddwn yn creu amgylcheddau, lleoliadau a chyfleoedd i alluogi pawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i gael bwyd da ac i symud'.**

Nid ydym eisiau i'r Cynllun Gweithredu hwn fod yn ddim ond disgrifiad o'r holl waith gwych sydd eisoes yn cyfrannu at hyn, fel y gwaith sy'n cael ei ysgogi drwy: ein Partneriaethau Bwyd, Strategaeth Fwyd Cyngor Caerdydd, Strategaeth Fwyd y Fro, Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon Caerdydd, Strategaeth Hamdden Bro Morgannwg, a llawer mwy. Fodd bynnag, lle ceir gorgyffwrdd a chyfatebiaeth rhwng y rhain a'r rhannau o'r system yr ydym wedi'u blaenoriaethu ar gyfer Bwyd Da a Symud, mae camau gweithredu wedi'u cynnwys.

Felly, mae'r camau gweithredu rydym wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu yn:

- Gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'r rhannau o'r system yr ydym wedi'u nodi fel rhai sydd angen eu newid
- Camau gweithredu sy'n cyd-fynd â rhannau o'r system lle y gallwn gael yr effaith fwyaf
- Camau gweithredu yr ydym wedi ymrwymo i gydweithio arnynt; gan wneud y mwyaf o'n hymdrechion
- Camau gweithredu a fydd yn cefnogi a galluogi newid y system

Yn olaf, drwy amrywiaeth o ddulliau, rydym yn anelu at sylwi ar, monitro, gwerthuso a deall y newid yr ydym yn ei ysgogi a'r effaith yr ydym yn ei chael. Bydd y dysgu ar y cyd hwn yn ein galluogi i fod yn ddeinamig a hyblyg. Byddwn yn addasu ein camau gweithredu lle y bo'n angenrheidiol fel rhan o arolwg parhaus, yn ogystal â drwy ddiweddaru ein Cynllun Gweithredu bob dwy flynedd.

## Ein ffocws ar gyfer 2024-2026

| Amgylchedd Iach | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ein nod: Creu amgylchedd sy'n galluogi, yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfleoedd i gael bwyd da, ac sy'n ailgyflwyno symud i fywyd bob dydd** | | | | | |
| | **Blaenoriaeth y system** | **Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni** | **Yr hyn y byddwn yn ei wneud** | **Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant** | **Pwy fydd yn arwain** |
| 1 | **Polisi a deddfwriaeth i gefnogi ac i alluogi pobl i symud, teithio'n llesol a chael bwyd da** | Ymgorffori bwyd da a symud yn y gwaith o ddylunio ein lleoedd, ein gofod a'n hadeiladau | Sicrhau bod pob Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a pholisïau strategol, lle y bo'n berthnasol, yn canolbwyntio ar fwyd da, symud/chwaraeon a chwarae. | • Polisïau wedi'u nodi<br>• Tystiolaeth wedi'i chasglu<br>• Polisïau wedi'u cryfhau a pholisïau newydd wedi'u datblygu<br>• Datblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Chwarae (Caerdydd)<br>• Datblygu cynlluniau creu lleoedd ar gyfer pob un o'r 4 tref ym Mro Morgannwg (y Fro) | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gydag Adran Gynllunio Caerdydd, Adran Gynllunio Bro Morgannwg, Tîm Dinasoedd Cyfeillgar i Blant Caerdydd |
| 2 | | Lleihau nifer yr hysbysebion ar gyfer bwyd a diod nad ydynt yn iach | Datblygu a gweithredu polisïau Hysbysebu Iachach i gyfyngu ar hysbysebu bwyd sy'n uchel mewn Braster, Siwgr a Halen ar draws safleoedd ac asedau sy'n eiddo i ni/a reolir gennym; cael gwybodaeth gan gymunedau, pobl ifanc a rhanddeiliaid ehangach i hysbysu newidiadau i bolisi. | • Polisïau hysbysebu iachach wedi'u datblygu ac yn sail i drefniadau cytundebol<br>• Yr hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad PHIRST wed'i rannu, llywio polisi | **Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** gyda thîm PHIRST |
| 3 | | Gwneud y mwyaf o asedau cymunedol | Ymchwilio i'r potensial ar gyfer datblygu ceginau cymunedol a masnachol a gyd-ddefnyddir mewn lleoliadau a nodwyd ledled Bro Morgannwg. | • Astudiaeth Dichonoldeb o Geginau Cymunedol a Masnachol a gyd-ddefnyddir wedi'i chynnal<br>• Argymhellion wedi'u llunio i fod yn sail i'r camau nesaf | **Partneriaeth Bwyd y Fro** |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Dylunio/ ail-ddylunio lleoedd, mannau ac adeiladau cymunedol sy'n galluogi pobl i symud a chael bwyd da** | Gwneud y mwyaf o asedau cymunedol (gan gynnwys ysgolion, canolfannau hamdden, caeau, parciau, ystafelloedd newid a chanolfannau cymunedol) | Datblygu dull strategol ar gyfer cyfleusterau a seilwaith yng Nghaerdydd sy'n galluogi cymunedau i fod yn egnïol.<br><br>Dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer cyfleusterau a seilwaith ym Mro Morgannwg sy'n cefnogi cymunedau i fod yn egnïol. | • Adolygu/ archwilio'r sefyllfa bresennol<br>• Argymhellion wedi'u llunio i fod yn sail i'r camau nesaf<br>• Dylanwadu ar gynlluniau | Caerdydd: **Grŵp Partneriaeth Symud Mwy**<br><br>Bro Morgannwg: **y Tîm Hamdden a Pharciau** |
| 5 | **Seilwaith teithio llesol integredig a thrafnidiaeth gyhoeddus hygyrch a dibynadwy** | Cynyddu argaeledd, ansawdd a'r defnydd o deithio llesol (cerdded, olwynio, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus) | Cydweithio i ddylunio cynlluniau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel.<br><br>Sicrhau cyfatebiaeth rhwng patrymau cymudo a strategaethau a llwybrau teithio llesol. | • Datblygu cynlluniau teithio llesol gan ystyried yr effeithiau ar anghydraddoldebau ac iechyd<br>• Cyflogwyr mawr yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar strategaethau a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. | **Timau Trafnidiaeth Caerdydd a Bro Morgannwg, Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro a Gweithredwyr Trafnidiaeth** |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | **Mannau cyhoeddus hygyrch, cynhwysol a diogel er mwyn i bobl allu symud, chwarae a thyfu bwyd** | Gwella mynediad i fwyd da | Cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol drwy ganfod tir a chyfleoedd addas ar gyfer tyfu bwyd cymunedol a masnachol. | Bro Morgannwg:<br>• Gwaith i fapio mannau cymunedol ar gyfer tyfu bwyd a nodi'r rhwystrau i gyfranogi wedi'i gwblhau<br>• Yr angen am fannau tyfu cymunedol ychwanegol wedi'i asesu<br>• Swm y llysiau a gynhyrchir drwy brosiectau garddwriaethol (tyfu bwyd) yn cynyddu<br><br>Caerdydd:<br>• Tyfu cymunedol wedi'i ystyried fel rhan o raglen derbyniadau cyfalaf Ystadau Strategol ledled y ddinas<br>• Cwblhau prosiect peilot yn llwyddiannus<br>• Cynllun tyfu cymunedol ar waith<br>• Ariannu a darparu cam nesaf Edible Cardiff (2025-2028) | Bro Morgannwg: **Partneriaeth Bwyd y Fro**<br><br>Caerdydd: **Cyngor Caerdydd** (drwy'r Strategaeth Fwyd) a **Phartneriaeth Bwyd Caerdydd** |
| 7 | **Mannau cyhoeddus hygyrch, cynhwysol a diogel er mwy i bobl allu symud, chwarae a thyfu bwyd** | Parciau cynhwysol a diogel a mannau agored sy'n galluogi pobl i fod yn egnïol | Cydweithio yng Nghaerdydd i ail-ddylunio parciau a mannau agored i sicrhau tegwch rhwng y rhywiau.<br><br>Cydweithio ym Mro Morgannwg i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â chynhwysiant o ran y defnydd o barciau a mannau agored. | Caerdydd:<br>• Cynnal gwaith ymchwil i ddeall beth sy'n sefyllfa dda o ran tegwch rhwng y rhywiau mewn parciau a mannau agored<br>• Cyd-ddylunio parciau a mannau agored gyda phobl ifanc<br>Bro Morgannwg:<br>• Cydweithio ar draws sectorau ar fannau a pharciau diogel gyda ffocws ar fenywod a merched<br>• Dylanwadu ar ddylunio ac ail-ddylunio parciau a mannau agored | Caerdydd: **Dinasoedd Cyfeillgar i Blant Caerdydd** gyda'r tîm Parciau, Chwaraeon Met Caerdydd a Thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro<br>Bro Morgannwg: **Yr Adran Hamdden a Pharciau** gyda Thîm Byw'n Iach y Fro, Bro Ddiogelach, a'r tîm Adfywio |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Mannau cyhoeddus hygyrch, cynhwysol a diogel er mwyn i bobl allu symud, chwarae a thyfu bwyd / Amgylchedd bwyd sy’n cefnogi ac yn galluogi bwyd da i bawb** | Gwella mannau cyhoeddus yn yr awyr agored ar gyfer chwarae a mynediad at fwyd da yn Butetown, Grangetown a Glanyrafon | Cydweithio â chymunedau a phartneriaid, i nodi a gwella mannau cyhoeddus ar gyfer chwarae, a mynediad at fwyd iach fforddiadwy i deuluoedd gyda phlant ifanc fel rhan o’r cynllun peilot PIPYN (Pwysau Iach Plant yng Nghymru). | • Dealltwriaeth gyffredin o’r elfennau lleol a ganlyn<br>  • Mannau chwarae<br>  • Amgylchedd bwyd<br>  • Heriau a galluogwyr<br>• Gwella mynediad at fwyd iach<br>• Gwella cyfleoedd i chwarae | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a’r Fro** gyda’r Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus a Grŵp Cyfeirio PIPYN |
| 9 | **Amgylchedd bwyd sy’n cefnogi ac yn galluogi bwyd da i bawb** | Gwella argaeledd bwyd da | Gwella argaeledd bwyd iach a chynaliadwy a gynigir ar draws safleoedd a reolir ar gyfer staff ac ymwelwyr. | Caerdydd:<br>• Adolygiad o’r bwyd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy safleoedd a reolir gan Gyngor Caerdydd drwy lens bwyd iach, carbon isel<br>• Archwiliad o gyfleoedd i swyddogaethau arlwyo’r Cyngor wella/rhagori ar y safonau presennol drwy gynyddu’r opsiynau iach wrth leihau carbon<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol:<br>• Cynnydd wedi’i wneud yn erbyn gweithredu’r Safonau Bwyta’n Iach ar gyfer bwytai a siopa manwerthu BIP Caerdydd a’r Fro<br>• Mynediad gwell at opsiynau bwyd a diod iach yn safleoedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer staff, cleifion ac ymwelwyr | **Cyngor Caerdydd** (drwy’r Strategaeth Fwyd)<br><br>**BIP Caerdydd a’r Fro** |

# Lleoliadau Iach

**Ein nod: Llunio ein hysgolion, ein gweithleoedd a’n lleoliadau cymunedol gan greu cyfleoedd sy’n galluogi, yn cefnogi ac yn hyrwyddo bwyd da a symud**

<table>
<tr><th></th><th>Blaenoriaeth y system</th><th>Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni</th><th>Yr hyn y byddwn yn ei wneud</th><th>Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant</th><th>Pwy fydd yn arwain</th></tr>
<tr><td>10</td><td rowspan="2">Polisïau, strwythurau a chymhellion yn ein lleoliadau i alluogi pobl i symud a chael bwyd da</td><td rowspan="2">Gwneud y mwyaf o botensial y diwrnod ysgol i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn egnïol, chwarae chwaraeon, a chael mynediad at fwyd da, ei brofi a dysgu amdano.</td><td>Dod â phartneriaid ynghyd o bob rhan o’r system sy’n chwarae rôl, neu a allai wneud hynny, mewn cefnogi a galluogi ysgolion i gyflawni safonau sylfaenol Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy’n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS) sy’n ymwneud â bwyd a gweithgaredd corfforol i ymwreiddio dulliau ysgol gyfan o ymdrin â gweithgaredd corfforol a bwyd.</td><td>• Dealltwriaeth a rennir o:<br>  • Safonau sylfaenol WNHWPS<br>  • Rôl y rhanddeiliaid presennol ac ehangach<br>  • Heriau a galluogwyr<br>  • Cyfleoedd ar draws y system i gefnogi a galluogi ysgolion<br>• Yr hyn a ddysgir a’r arferion gorau’n cael eu rhannu a’u dathlu ar draws y rhanbarth<br>• Y cyfleoedd i ymwreiddio’r dull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd wedi’u datblygu<br>• Y cyfleoedd i ymwreiddio’r dull ysgol gyfan o ymdrin â gweithgaredd corfforol wedi’u datblygu</td><td>Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a’r Fro gyda thimau WNHWPS Caerdydd a Bro Morgannwg, Chwaraeon Met Caerdydd, Tîm Byw’n Iach y Fro, timau Addysg, timau Arlwyo Ysgolion, Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus, Partneriaeth Bwyd y Fro, Partneriaeth Bwyd Caerdydd</td></tr>
<tr><td>11</td><td>Datblygu dealltwriaeth gyffredin o’r ffactorau sy’n effeithio ar amseriad diwrnod mewn ysgol uwchradd gan gynnwys egwyliau cinio a’r effaith ar gyfleoedd ar gyfer bwyd da, symud, chwarae a chwaraeon.</td><td>• Rhannu’r hyn a ddysgwyd ynghylch:<br>  • Y ffactorau sy’n effeithio ar amseriad y diwrnod mewn ysgolion uwchradd<br>  • Yr effaith ar gyfleoedd ar gyfer bwyd da a symud<br>  • Yr heriau a’r galluogwyr<br>• Nodi a datblygu ffyrdd i wneud y mwyaf o’r cyfleoedd ar gyfer bwyd da a symud drwy gydol y diwrnod ysgol</td><td>Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a’r Fro gyda thimau WNHWPS Caerdydd a Bro Morgannwg, Chwaraeon Met Caerdydd, Tîm Byw’n Iach y Fro, Timau Arlwyo Ysgolion, Timau Addysg, Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus</td></tr>
</table>

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Polisïau, strwythurau a chymhellion yn ein lleoliadau i alluogi pobl i symud a chael bwyd da** | Gwneud y mwyaf o botensial y diwrnod ysgol i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn egnïol, i chwarae chwaraeon, ac i gael mynediad at fwyd da, ei brofi a dysgu amdano. | Monitro'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd a pharhau i weithio gydag ysgolion i gynyddu nifer y plant sy'n cael budd o brydau ysgol am ddim yn ein holl ysgolion cynradd. | Plant ym mhob ysgol gynradd yn parhau i gael y cyfle i gael pryd ysgol am ddim bob diwrnod | Bro Morgannwg: **Big Fresh** gyda Chyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau<br>Caerdydd: Y Gwasanaeth **Arlwyo Addysg** yn gweithio ar y cyd ag ysgolion |
| 13 | **Gwybodaeth, sgiliau a hyder y gweithlu i; ddysgu, ymgorffori, cyfeirio a bod yn fodel rôl** | Gwneud y mwyaf o botensial lleoliadau blynyddoedd cynnar i alluogi plant ifanc i fod yn gorfforol egnïol a chael mynediad at fwyd da. | Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r adnoddau a'r hyfforddiant sydd ar gael i leoliadau'r blynyddoedd cynnar o ran chwarae, llythrennedd corfforol a bwyd yn cydweithio i leihau dyblygu a chefnogi ymarferwyr y blynyddoedd cynnar. | • Dealltwriaeth o:<br>  • Gyfleoedd hyfforddi<br>  • Adnoddau<br>  • Rôl y rhanddeiliaid presennol a rhanddeiliaid ehangach<br>  • Bylchau a nodwyd<br>• Yr hyn a ddysgwyd a wedi cael ei rannu<br>• Galluogi a chefnogi'r gweithlu | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Chwaraeon Met Caerdydd, Tîm Byw'n Iach y Fro, Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus, Timau Gofal Plant Bro Morgannwg, Timau Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy Bro Morgannwg, Gwasanaethau Chwarae Plant Caerdydd, y Tîm Cymorth Cynnar, Dechrau'n Deg, Chwarae Cymru |
| 14 | **Polisïau, strwythurau a chymhellion yn ein lleoliadau i alluogi pobl i symud a chael bwyd da** | Ailgyflwyno symud i'r diwrnod gwaith. | Datblygu canllawiau polisi i gefnogi sefydliadau i gynyddu cyfleoedd i bobl symud, gwneud gweithgaredd corfforol, a lleihau ymddygiad llonydd yn y gweithle. | • Newidiadau i bolisïau sefydliadau i alluogi a chefnogi pobl i symud<br>• Ymrwymiad sefydliadol i<br>• 'Active Soles'<br>• Rhannu a dathlu'r hyn a ddysgwyd a'r arferion gorau ar draws y rhanbarth | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Chwaraeon Met Caerdydd, Timau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

## Pobl Iach

### Ein nod: Galluogi cyfleoedd hygyrch a fforddiadwy i bobl gael bwyd da a symud mewn ffordd sy'n deg ac yn gynhwysol i bawb drwy gydol eu hoes

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Hygyrch a fforddiadwy; gweithgareddau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da** | Gwella mynediad i fwyd da | Gweithio drwy Weithgor Diffyg Diogeledd Bwyd y Fro a Gweithgor Tlodi Bwyd Caerdydd i wella mynediad at fwyd a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi yng Nghaerdydd a'r Fro. | Bro Morgannwg:<br>• Cysylltu rhanddeiliaid sy'n gweithio ar ddiffyg diogeledd bwyd<br>• Ymchwilio i'r cyfle ar gyfer modelau prynu cydweithredol ar gyfer prosiectau cymorth bwyd presennol<br><br>Caerdydd:<br>• Cysylltu rhanddeiliaid sy'n gweithio ar ddiffyg diogeledd bwyd<br>• Y lefelau o ddiffyg diogeledd bwyd fel yr adroddwyd yn Holi Caerdydd yn dechrau lleihau | Bro Morgannwg:<br>**Partneriaeth Bwyd y Fro**<br><br>Caerdydd:<br>**Partneriaeth Bwyd Caerdydd** |
| 16 | | | Galluogi mynediad at fwyd iach drwy waith hyrwyddo wedi'i dargedu ar y buddion sy'n ymwneud â bwyd, (e.e. Cychwyn Iach) a hyfforddiant ar gyfer pobl broffesiynol a gwirfoddol sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd â'r angen mwyaf. | • Mwy o staff/sefydliadau rheng flaen yn cael mynediad at yr adnoddau a'r hyfforddiant Budd-daliadau Bwyd.<br>• Gwybodaeth well a mwy o hyder ymysg y staff rheng flaen o ran rhannu gyda theuluoedd | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Deieteg Iechyd Cyhoeddus |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Hygyrch a fforddiadwy; gweithgareddau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n cefnogi ac yn galluogi pobl i symud a chael bwyd da** | Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau iach i'r eithaf | Archwilio'r cyfleoedd a'r heriau sy'n galluogi'r gweithlu'r blynyddoedd cynnar i; gael 'sgyrsiau iach' â theuluoedd, darparu cymorth a chyfeirio pobl. | • Heriau a galluogwyr wedi'u nodi<br>• Cyfleoedd wedi'u datblygu ar draws y system i fynd i'r afael â nhw<br>• Teuluoedd wedi'u cefnogi a'u cysylltu â chyfleoedd lleol | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda'r gweithlu blynyddoedd cynnar, Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus, Chwaraeon y Met, Tîm Byw'n Iach y Fro, C3SC a GVS |
| 18 | | Cysylltiad gwell gan bobl â chyfleoedd hygyrch a fforddiadwy i wneud gweithgaredd corfforol | Creu canolfan adnoddau ganolog gyda manylion yr holl gyfleoedd gweithgaredd corfforol a chwaraeon i gysylltu pobl â nhw. | • Offeryn Darganfod Gweithgaredd wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio data agored<br>• Darparwyr gweithgareddau yn ymgysylltu ac yn rhannu eu data<br>• Offeryn darganfod gweithgaredd wedi'i hyrwyddo'n eang ac yn cael ei ddefnyddio<br>• Bylchau'n cael eu nodi a chyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain yn cael eu harchwilio | **Grŵp partneriaeth Symud Mwy** a **Thîm Byw'n Iach y Fro** |
| 19 | **Gwybodaeth, sgiliau a hyder y gweithlu a gwirfoddolwyr i; rannu, cefnogi, cyfeirio a bod yn fodel rôl.** | Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer sgyrsiau iach i'r eithaf. | Cysylltu partneriaid presgripsiynu cymdeithasol, gweithwyr cyswllt a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd â gwybodaeth a hyfforddiant ynghylch pwysigrwydd bod yn egnïol a lleihau amser llonydd. | • Ymgysylltu â rhagnodwyr cymdeithasol, cysylltu gweithwyr a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd<br>• Hyfforddiant wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio gwybodaeth am rwystrau a hwyluswyr<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu a'i ymwreiddio | **Grŵp Partneriaeth Symud Mwy, Tîm Byw'n Iach y Fro, Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro,** gyda'r Hwb Arloesedd a Chyfathrebu Rhanbarthol, Clystyrau Gofal Sylfaenol, darparwyr presgripsiynau cymdeithasol, C3SC a GVS |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Gwybodaeth, sgiliau, a hyder ein cymunedau** | Cynyddu'r cymorth i deuluoedd mewn angen | Cynyddu ymgysylltiad â theuluoedd gyda phlant ifanc yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig i; gael mewnwelediad a meithrin gwybodaeth, sgiliau a hyder ynghylch bwyd, symud a chwarae yn ogystal â chysylltu teuluoedd â llwybrau cymorth pellach. | • Teuluoedd yn ymgysylltu ac yn cael eu cefnogi<br>• Teuluoedd wedi'u cyfeirio at lwybrau cymorth eraill | **Tîm Deieteg Iechyd Cyhoeddus, Chwaraeon Met Caerdydd** a **Thîm Byw'n Iach y Fro.** |
| 21 | **Normau cymdeithasol, diwylliant a gwerthoedd cymunedol** | Newid arferion cymdeithasol i fod yn fwy egnïol | Ymgymryd â gwaith mewnweledol i ddatblygu ymgyrchoedd cyhoeddus:<br>• Symud ar gyfer merched ifanc<br>• Pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored<br>• Teithio cynaliadwy | • Wedi cael mewnwelediad<br>• Negeseuon o ansawdd da sy'n cael effaith wedi'u datblygu<br>• Ymgyrchoedd wedi'u datblygu a'u lledaenu | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Grŵp Partneriaeth Symud Mwy,<br>Tîm Byw'n Iach y Fro, Chwarae Cymru, Uned Mewnwelediadau Ymddygiadol y timau Chwarae a Trafnidiaeth Cymru, tîm Trafnidiaeth Bro Morgannwg, tîm Trafnidiaeth Caerdydd |
| 22 | **Normau cymdeithasol, diwylliant a gwerthoedd cymunedol** | Lleihau'r rhwystrau i fwydo ar y fron | Cynnal ymchwil â ffocws gyda rhieni i feithrin dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r galluogwyr i fwydo ar y fron | • Ymchwil wedi'i gynnal<br>• Argymhellion wedi'u gweithredu | **CAWR (y Ganolfan ar gyfer Ymchwil i Weithgaredd a Llesiant),<br>Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro a Thîm Bwydo Babanod y Bwrdd Iechyd Prifysgol** |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 23 | **Normau cymdeithasol, diwylliant a gwerthoedd cymunedol** | Cryfhau asedau cymunedol yn y cymunedau sydd â'r angen mwyaf. | Mabwysiadu dull yn seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar gymunedau a nodwyd a chamau gweithredu wedi'u harwain gan gymuned drwy;<br><br>Caerdydd a Bro Morgannwg:<br>• Meithrin dealltwriaeth o asedau cymunedol lleol mewn perthynas â bwyd/maeth/tyfu bwyd a symud/chwaraeon/chwarae drwy brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin<br>• Nodi, cefnogi a thyfu arweinwyr cymunedol<br><br>Caerdydd:<br>• Cysylltu partneriaid sydd â rôl ymgysylltu/datblygu cymunedol i rannu'r hyn a ddysgwyd a dulliau gweithredu<br>• Targedu cymorth/adnoddau/amser swyddogion i helpu asedau cymunedol i gryfhau a thyfu<br><br>Bro Morgannwg:<br>• Prosiect 'Eich Lle' yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig | • Mewnwelediad cymunedol, gan sicrhau amrywiaeth o leisiau<br>• Dealltwriaeth gyffredin o asedau cymunedol<br>• Ymgysylltiad cymunedol gwell<br>• Cysylltiadau gwell rhwng grwpiau cymunedol a phrosiectau lleol<br>• Cryfhau asedau gan gynyddu cyrhaeddiad cymunedol<br>• Nodi a chefnogi arweinwyr cymunedol<br>• Hwyluso cyfleoedd dysgu a rennir | **C3SC, GVS, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg; (y Tîm Strategaeth a Mewnwelediad a Chymunedau Creadigol), Tîm Byw'n Iach y Fro, Chwaraeon Met Caerdydd, Partneriaeth Bwyd y Fro, Grŵp Llywio 'Eich Lle'** |

## Arwain a Galluogi Newid

**Ein nod: Galluogi newid ar draws y system drwy arweinyddiaeth, creu polisïau sy'n galluogi, datblygu capasiti a thargedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau**

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 24 | Arweinyddiaeth a chreu polisïau sy'n galluogi | Galluogi arweinyddiaeth strategol | Cryfhau trefniadau llywodraethu er mwyn gwella cysylltedd y system; rhyddhau a galluogi newid | • Trefniadau llywodraethu wedi'u hadolygu a'u cryfhau<br>• Cynnydd, dysgu a llwyddiant yn cael eu rhannu a'u dathlu'n eang<br>• Newid y system drwy nodi a datrys y rhwystrau | Grŵp Arweinyddiaeth a Galluogi Newid (Caerdydd) |
| 25 | | Perchnogaeth a rennir | Ymgorffori camau gweithredu Bwyd Da a Symud mewn cynlluniau corfforaethol. | • Camau gweithredu wedi'u hymgorffori mewn fframweithiau cynllunio, cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwaith<br>• Perchnogaeth wedi'i rhannu a chamau gweithredu wedi'u datblygu | Grŵp Arweinyddiaeth a Galluogi Newid (Caerdydd)<br>Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) |
| 26 | | Bwyd Da a Symud ym mhob polisi | Sicrhau bod Bwyd Da a Symud yn cyd-fynd â chynlluniau strategol, polisïau a rhaglenni gwaith eraill. | • Arolwg wedi'i gynnal o'r cynlluniau strategol a'r polisïau<br>• Cyfleoedd i wneud y mwyaf o ysgogwyr i newid drwy alinio polisïau wedi'u nodi a'u datblygu | Grŵp Arweinyddiaeth a Galluogi Newid (Caerdydd)<br>Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Datblygu capasiti yn y system** | Sicrhau bod ffyrdd o weithio yn bwrw gwreiddiau | Datblygu a darparu rhaglen o hyfforddiant ar arweinyddiaeth systemau ar draws y rhwydwaith o bartneriaid. | • Ymgysylltiad ar draws y system mewn cyfleoedd dysgu<br>• Mwy o wybodaeth a hyder ynghylch meddwl drwy systemau<br>• Mwy o gysylltedd ar draws y system a rhannu'r hyn a ddysgwyd gan sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu clywed<br>• Arweinyddiaeth wasgaredig | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) |
| 28 | | Llunio'r negeseuon cywir | Datblygu, rhannu a defnyddio iaith gyson ar gyfer cyfathrebu a disgrifio'r rhaglen Bwyd Da a Symud. | • Hyfforddiant ar fframio ac iaith wedi'i ddarparu<br>• Dogfen ganllaw wedi'i datblygu<br>• Astudiaethau achos a straeon wedi'u datblygu a'u mabwysiadu | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) |
| 29 | | Gwneud y gorau o adnoddau presennol ac adnoddau'r dyfodol | Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu dulliau cynaliadwy o ddefnyddio cyllid presennol ochr yn ochr â chwilio am gyfleoedd cyllido ychwanegol a fydd yn arwain at newid y system. | • Cyfleoedd i ailddylunio cyllid grant ar draws sectorau wedi cael eu harchwilio<br>• Adnoddau wedi'u crynhoi ar draws sectorau er mwyn rhannu a lleihau dyblygu<br>• Ffynonellau cyllido newydd wedi'u canfod | **Grŵp Arweinyddiaeth a Galluogi Newid (Caerdydd) a'r Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro)** |

| | Blaenoriaeth y system | Y newid yr ydym yn ceisio ei gyflawni | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Beth fydd yn cael ei ystyried yn llwyddiant | Pwy fydd yn arwain |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 | **Targedu cymorth i gyd-fynd ag anghenion pobl a chymunedau** | Gwneud penderfyniadau ar sail data | Datblygu dealltwriaeth gyffredin a naratif ar ddata, mewnwelediad ac effaith | • Data a mewnwelediad presennol wedi'u casglu; llywio'r cyfeiriad<br>• Gwybodaeth am y ffordd y mae'r system yn newid a'r effaith ar Fwyd Da a Symud wedi'i chasglu a'i rhannu. | **Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** gyda Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro) Grŵp<br><br>**Arweinyddiaeth a Galluogi Newid (Caerdydd)** |
| 31 | **Dylanwadu ar newidiadau i'r system ehangach a'u hyrwyddo** | Dylanwadu y tu hwnt i Gaerdydd a Bro Morgannwg | Chwilio am gyfleoedd i ddylanwadu ar ac eirioli dros newid ehangach i'r system wrth gefnogi gweithredu'n lleol. | • Dylanwad ar bolisi a deddfwriaeth | **Grŵp Arweinyddiaeth a Galluogi Newid (Caerdydd) Grŵp Gweithredu Bwyd Da a Symud (Caerdydd a'r Fro)** |

Bwyd Da a Symud

# Bwyd Da a Symud: Cynllun Gweithredu i Gaerdydd a Bro Morgannwg (2024-2026)

**Llunio'r lleoedd** yr ydym yn **byw**, yn **gweithio** ac yn **chwarae** ynddynt.

(V2-02/12/24)